**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

17 Gorffennaf 2023

Annwyl Delyth

Ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd awdurdodau lleol

Er gwybodaeth i chi, amgaeaf gopi dan embargo o'n hadroddiad ar Wasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd Awdurdodau Lleol. Mae'r adroddiad dan embargo tan 00.01 ddydd Iau 20 Gorffennaf, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech ei drin fel dogfen gyfrinachol tan hynny.

Efallai y bydd y materion a drafodwyd gennym fel rhan o'r ymchwiliad a'r argymhellion a wneir gennym yn yr adroddiad o ddiddordeb i'ch Pwyllgor. Yn arbennig, hoffwn dynnu eich sylw at argymhelliad 13:

> *Argymhelliad 13. Rydym yn cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y dylai Llywodraeth Cymru roi cyllid ychwanegol wedi'i dargedu i'r sectorau chwaraeon a diwylliant i helpu lleoliadau a sefydliadau sy'n wynebu'r posibilrwydd o orfod cau ond sydd â dyfodol cynaliadwy y tu hwnt i'r argyfwng uniongyrchol.*

Yn ystod yr ymchwiliad, roedd yn amlwg bod angen i wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd gael cymorth ar frys i'w helpu i lywio'r argyfwng presennol. Rydym felly wedi cymeradwyo'r argymhelliad yn eich adroddiad chi ar gostau cynyddol a'r effaith ar ddiwylliant a chwaraeon, ac wedi argymell hefyd bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar ba gymorth ariannol ychwanegol y bydd yn ei ddarparu i wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd i ddelio â'r argyfyngau ynni a chostau byw presennol.

Nodwn yn ein hadroddiad fod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod yr argymhelliad yn eich adroddiad chi, Sicrhau chwarae teg: Adroddiad ar gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig, bod:

> *"… Llywodraeth Cymru yn cyflwyno dull cenedlaethol newydd o ymwneud â chymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig. Dylai'r dull hwn ddwyn ynghyd y gwaith presennol ac arfer da sydd eisoes yn digwydd yn ogystal â chyflwyno syniadau newydd i gyfrannu at y dull hwn. Dylai hyn gynnwys targedau mesuradwy, a fyddai'n cael eu gosod ar gyfer cyfnod penodol o bum mlynedd, i sicrhau bod cydraddoldeb o ran mynediad at gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol."*

Pan wnaethom holi Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth am ei rhesymau am wrthod eich argymhelliad yn ystod sesiwn dystiolaeth lafar ar 24 Mai, dywedodd:

> *"…we didn't want to waste time and resource developing a new strategy when we were already working to a strategy that was engaging with the sector and with stakeholders across local authority, across the third sector, with the general public and across Government."*

Fodd bynnag, byddai cael fframwaith polisi ar gyfer darpariaeth hamdden gyhoeddus yn creu manteision yn ein barn ni. Er bod gan Lywodraeth Cymru sawl strategaeth i annog mwy o gyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden egnïol yn fwy cyffredinol, mae'n debyg nad oes gweledigaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau hamdden cyhoeddus, yn enwedig un sy'n cysylltu gwasanaethau iechyd a hamdden cyhoeddus. Felly, gwneir yr argymhellion a ganlyn yn ein hadroddiad sy'n gysylltiedig â'ch casgliadau chi o ran cael dull cenedlaethol newydd ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol:

> **Argymhelliad 5:** *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn arwain adolygiad cyflym o'r sefyllfa bresennol o ran darpariaeth gwasanaethau hamdden cyhoeddus yng Nghymru ac yn gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid allweddol fel CLlLC, Un Llais Cymru, Chwaraeon Cymru a CCGC i ystyried gwelliannau ar gyfer dyfodol gwasanaethau hamdden.*

> **Argymhelliad 6.** *Dylai Llywodraeth Cymru gymryd pob cam rhesymol i ddatblygu cysylltiadau cryfach rhwng gwasanaethau hamdden cyhoeddus a gwasanaethau iechyd. Dylai hyn gynnwys datblygu fframwaith polisi newydd ar gyfer gwasanaethau hamdden cyhoeddus, sy'n cysylltu'n agos â gwasanaethau iechyd a lles. Fel rhan o'r broses, dylid adolygu rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth wella cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau hamdden cyhoeddus.*

Rydym yn bwriadu gofyn i'r Pwyllgor Busnes drefnu dadl ar ein hadroddiad yn yr hydref. Cyn y ddadl honno, byddaf yn gofyn i'r tîm clercio rannu ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad gyda chi.

Yn gywir,

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.